OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1067 (Cy. 106)

# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Ebrill 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *24 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Mai 2014* |

Dynodir Gweinidogion Cymru mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno o'r Ddeddf honno.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dewis ymgynghori mewn perthynas â rheoliad 6 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau") (**3**).

### Enwi, cychwyn a rhychwantu

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mai 2014.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Amrywio Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 2 (dŵr wyneb yng Nghymru)—

(a) ar ôl "Llanrhystud", mewnosoder "Llyn Padarn"; a

(b) ar ôl "Rhyl", mewnosoder "Rhyl East".

(**1**) Gweler O.S. 2003/2901 ar gyfer y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 28 o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi ei roi i Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a chan Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7).

(**3**) O.S. 2013/1675.

*Alun Davies*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru.

21 Ebrill 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn amrywio Rhan 2 o Atodlen 2 (dŵr wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau"), sy'n rhestru'r dyfroedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel dyfroedd ymdrochi yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Llyn Padarn a Dwyrain y Rhyl at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid oes unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y rheoliadau diwygiedig hyn gan nad oes unrhyw newid i bolisïau, nac unrhyw effaith ar fusnesau neu'r sector gwirfoddol yn cael ei rhagweld.